



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---


# Ymchwiliad gorfodi safonau: Adroddiad a hysbysiad penderfynu

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 73 ac adran 74 Mesur y  
Gymraeg (Cymru) 2011

Cynhaliwyd yr ymchwiliad i amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau a  
bennir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 71 ac Atodlen 10 Mesur y  
Gymraeg (Cymru) 2011.

## Gweinidogion Cymru

Rhif achos: CS079



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw at y ffaith fod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, a thrwy reoleiddio cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

## Manylion cyswllt

- Ffôn: 0345 6033 221
  - E-bost: [post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)
  - Gwefan: [comisiynyddygyymraeg.cymru](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)
  - Post: Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5–7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd  
CF10 1AT
-



# Cyd-destun deddfwriaethol

## Rhan 4 Mesur y Gymraeg

- Mae Rhan 4 Mesur y Gymraeg yn gosod fframwaith cyfreithiol er mwyn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Gelwir sefydliadau sy'n ddarostyngedig i safonau yn 'bersonau perthnasol'. Ceir safonau yn y meysydd canlynol:

  - cyflenwi gwasanaethau;
  - llunio polisi;
  - gweithredu;
  - hybu;
  - cadw cofnodion.
- Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu bod rhaid i bersonau perthnasol beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylent hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.
- Mae hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol gan y Comisiynydd dan Ran 4 Mesur y Gymraeg yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol cydymffurfio â hwy, ynghyd â'r diwrnodau oddi ar bryd y mae'n ofynnol cydymffurfio â'r safonau hynny neu gydymffurfio â'r safonau hynny mewn modd penodol ('diwrnodau gosod'). Bydd copïau ar wefan y Comisiynydd o'r hysbysiadau cydymffurfio sydd mewn grym.
- Tra bydd hysbysiad cydymffurfio sy'n benodol i berson perthnasol mewn grym, bydd yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safonau a bennwyd ynddo.

## Rhan 5 Mesur y Gymraeg

- v. Mae Rhan 5 Mesur y Gymraeg yn rhoi swyddogaethau rheoleiddiol statudol i'r Comisiynydd er mwyn sicrhau bod personau perthnasol yn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Gall dyletswyddau gynnwys cydymffurfio â safonau'r Gymraeg (fel y nodir uchod), ac hefyd ofyniadau a osodir ar bersonau gan y Comisiynydd yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg yn sgil methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch sut y bydd y Comisiynydd yn arfer y swyddogaethau rheoleiddiol hynny.
- vi. Y swyddogaethau rheoleiddiol sy'n deillio o Ran 5 Mesur y Gymraeg yw:
- ystyried ai i ymchwilio ai peidio os gwneir cwynion ynghylch ymddygiad personau perthnasol;
  - ymchwilio i amheuon o fethiant gan bersonau perthnasol i gydymffurfio â dyletswyddau, dyfarnu ar ymchwiliadau a llunio adroddiadau ar ymchwiliadau;
  - ystyried ai i weithredu ymhellach (drwy roi argymhellion neu gyngor) ai peidio os yw ymchwiliad yn canfod na fu methiant i gydymffurfio;
  - cymryd un o'r tri cham isod os yw ymchwiliad yn canfod y bu methiant i gydymffurfio:
    - peidio â gweithredu ymhellach;
    - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
      - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
      - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol gymryd camau at y diben o atal y methiant rhag parhau neu gael ei ailadrodd;
      - rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant y person perthnasol i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
      - ei gwneud yn ofynnol i'r person perthnasol roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;
      - gosod cosb sifil ar y person perthnasol.
    - gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:
      - rhoi argymhellion i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
      - rhoi cyngor i'r person perthnasol neu i unrhyw berson arall;
      - ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda'r person perthnasol.
  - gwneud ceisiadau i lys sirol am orchmynion llys i orfodi cydymffurfiaeth;
  - cydymffurfio â dyletswyddau sy'n deillio o apelau i Dribiwnlys y Gymraeg a cheisiadau am adolygiadau gan y Tribiwnlys;
  - llunio dogfen polisi gorfodi;
  - creu a chynnal cofrestr camau gorfodi.
- vii. Bydd y Comisiynydd yn dilyn y prosesau statudol gofynnol wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol.
- viii. Mae Polisi Gorfodi'r Comisiynydd yn cynnwys gwybodaeth lawn ynghylch y ffordd y bydd y Comisiynydd yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddiol dan Ran 5 Mesur y Gymraeg.
-

# Cynnwys

1	Cylch gorchwyl	1
2	Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad	3
3	Cydymffurfiaeth â safon 52: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad	8
4	Cydymffurfiaeth â safon 56: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad	12
	Hysbysiad penderfynu	15

---

# 1 Cylch gorchwyl

## Amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg

- 1.1 Ar 08/09/2021 derbyniais gŵyn gan aelod o'r cyhoedd. Roedd yn bodloni amodau adran 93 Mesur y Gymraeg, ac felly'n gŵyn ddilys.
- 1.2 Honnodd yr achwynydd bod gwybodaeth am gyfleusterau gorsaf ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn Saesneg yn unig.

## Cadarnhau cyfrifoldeb am y gwasanaeth perthnasol

- 1.3 Ysgrifennodd fy swyddogion at Weinidogion Cymru ar 10/09/2021 er mwyn cadarnhau ai nhw oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth y cwynwyd amdano.
- 1.4 Wrth gadarnhau cyfrifoldeb am y gwyn ar 06/10/2021, dywedodd Gweinidogion Cymru:

“Mae gwybodaeth yn adran ‘cyfleusterau gorsaf’ ar y wefan yn dod o cronfa ddata National Rail Enquiries (NRE) mewn fformat sy'n cael ei defnyddio ar draws y DU ac yn gweithio o ‘feed’ ganddyn nhw ar hyn o bryd (yn debyg iawn i wybodaeth Journey Check). Fel rhan o “Phase 2” prosiect One Domain, mae'r tîm TG yn edrych i drosglwyddo'r wybodaeth yma i'r wefan (trc.cymru) yn uniongyrchol a fyddan nhw darparu'r holl wybodaeth yn ddwyieithog fel rhan or gwaith hyn.

Mi oedd yna gyfarfod ddoe i drafod “Phase 2” (hefyd yr Ap, TIS a JC) felly mi nai neud yn siŵr bod ni yn rhannu amserlen a cynllun gwaith hefo chi yn y man.

Ymhellach i hyn, deallwn mai Tachwedd oedd yr amserlen wreiddiol ar gyfer lansio “phase 2” y wefan ar ei newydd wedd, ond oherwydd problemau technegol mae'r amserlen wedi newid i fis Rhagfyr.”

## Safonau perthnasol

- 1.5 Mae Gweinidogion Cymru dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau isod, ac roedd dan ddyletswydd i wneud hynny ar y dyddiad sy'n berthnasol i'r gŵyn:

### Safon 52

Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.

Rhaid cydymffurfio â safon 52 ymhob amgylchiad, ac eithrio:

- gwefannau sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer cynulleidfaoedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.
- gwybodaeth catalog a contract ar y gwasanaeth gwe e- fasnach Proserve.

Rhaid cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2016:

- StatsCymru

Rhaid cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2017:

- Traffig Cymru

Rhaid cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2019:

- Gwefan 'Rheoli Portffolio Cyflenwr'

Rhaid cydymffurfio efo'r safon hon mewn perthynas â baner llif byw tudalen gartref gwefan Trafnidiaeth Cymru Gwasanaeth Rheilffyrdd erbyn 1 Ebrill 2022.  
**Diwrnod gosod:** 30.03.2016

### **Safon 56**

Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.

Rhaid cydymffurfio â safon 56 ymhob amgylchiad, ac eithrio:

- gwefannau sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer cynulleidfaedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.
- gwybodaeth catalog a chontract ar y gwasanaeth gwe e-fasnach Procserve.

Rhaid cydymffurfio â safon 56 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2016:

- StatsCymru

Rhaid cydymffurfio â safon 56 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2017:

- Traffig Cymru

Rhaid cydymffurfio â safon 56 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2019:

- Gwefan 'Rheoli Portffolio Cyflenwr'

**Dyddiad gosod:** 30.03.2016

## **Penderfyniad i ymchwilio**

- 1.6 Ar sail yr uchod, penderfynais gynnal ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg er mwyn penderfynu a fu methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'r safonau a nodwyd. Rhoddais hysbysiad o'r penderfyniad i ymchwilio, ac o'r cylch gorchwyl arfaethedig, i Weinidogion Cymru ar 22/10/2021.
- 1.7 Rhoddais hysbysiad o gylich gorchwyl terfynol yr ymchwiliad i Weinidogion Cymru ar 10/11/2021. Gellir gweld y cylch gorchwyl terfynol fel atodiad i'r adroddiad hwn.

## 2 Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad

### Hysbysiad tystiolaeth

- 2.1 Ar 10/11/2021, rhoddais hysbysiad tystiolaeth i Weinidogion Cymru. Roedd yr hysbysiad tystiolaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu'r dystiolaeth ganlynol:

#### Gwybodaeth a dogfennau

1. A yw D yn derbyn honiad yr achwynydd bod gwybodaeth am gyfleusterau gorsaf ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn Saesneg yn unig? Os ydi'r honiad yn cael ei dderbyn, esboniwch pam fod y wybodaeth am gyfleusterau gorsaf yn uniaith Saesneg ar y wefan.
2. A yw D o'r farn bod yr adran cyfleusterau gorsaf gwefan Trafnidiaeth Cymru yn cydymffurfio gyda gofynion y Safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad? Eglurwch eich rhesymau.
3. Os nad ydi D o'r farn bod yr adran cyfleusterau gorsaf gwefan Trafnidiaeth Cymru yn cydymffurfio gyda gofynion y Safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad nodwch pam nad ydyw D wedi sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda'r Safonau.
4. Beth ydi'r canllawiau neu gyfarwyddiadau sydd wedi ei roi i rai yng ngofal gwefan Trafnidiaeth Cymru boed yn staff mewnol neu yn drydydd parti ynglŷn â chydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg? Darparwch dystiolaeth.
5. Beth yw proses arolygaeth D i sicrhau bod gwefan Trafnidiaeth Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion Safonau'r Gymraeg?
6. Os yw D yn derbyn honiad yr achwynydd, pa gamau bydd yn cael eu cymryd neu sydd wedi eu cymryd i sicrhau bod yr holl wybodaeth am gyfleusterau gorsaf ar y wefan yn ddwyieithog ac yn cydymffurfio a Safonau'r Gymraeg?
7. Darparwch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol yr ydych am i ni ei ystyried wrth ddyfarnu ar eich cydymffurfiaeth â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.
8. Darparwch gopi o unrhyw bolisi, gweithdrefn, canllaw neu ddogfen arall yr ydych am i ni ei ystyried wrth ddyfarnu ar eich cydymffurfiaeth â'r safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.



- 2.2 Mewn ymateb, derbyniais dystiolaeth gan Weinidogion Cymru ar 03.12.2021. Derbyniwyd tystiolaeth Gweinidogion Cymru yn Saesneg yn unig. Darparwyd hefyd gopïau o'r dogfennau canlynol:
- 'Transport for Wales' Welsh language commitment' Mehefin 2019 (*Dogfen PowerPoint*);
  - 'Transport for Wales: Guidelines on the Application of TfW's Welsh Language Policy';
  - 'Transport for Wales: Welsh Language Policy'.
- 2.3 Ystyriais yr holl wybodaeth a gyflwynwyd mewn ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth.

### **Y dystiolaeth a dderbyniwyd**

- 2.4 Yn eu hymateb i'r Hysbysiad Tystiolaeth, dywedodd Gweinidogion Cymru eu bod yn derbyn bod y wybodaeth am gyfleusterau gorsaf ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn uniaith Saesneg. Dywedodd Gweinidogion Cymru bod y wybodaeth a arddangosir ar dudalennau gwybodaeth gorsafoedd Trafnidiaeth Cymru yn wasanaeth gwybodaeth teithio byw sy'n cael ei fwydo'n uniongyrchol o system Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol (*National Rail Enquiries*). Esbonnir fod hon yn system wybodaeth reilffordd ledled y DU sydd â chynnwys ar gael yn Saesneg yn unig ac a ddefnyddir gan holl Gwmnïau Gweithredu Trenau'r DU.
- 2.5 Gofynnwyd i Weinidogion Cymru os oedden nhw o'r farn bod adran cyfleusterau gorsaf gwefan Trafnidiaeth Cymru yn cydymffurfio gyda gofynion y Safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad. Cadarnhaodd Gweinidogion Cymru yn eu hymateb nad ydyn nhw o'r farn fod adran cyfleusterau gorsaf gwefan Trafnidiaeth Cymru yn cydymffurfio gyda gofynion y Safonau a nodir yng nghylch gorchwyl yr ymchwiliad.
- 2.6 Os nad oedd Gweinidogion Cymru o'r farn bod adran cyfleusterau gorsaf gwefan Trafnidiaeth Cymru yn cydymffurfio gyda gofynion y Safonau a nodir, gofynnwyd iddynt nodi pam nad oeddent wedi sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda'r Safonau. Esboniodd Gweinidogion Cymru bod eithriad i gydymffurfio â Safon 52 yng nghydestun baner llif byw a'r gwasanaeth hysbysiadau gwybodaeth gwirio teithiau byw hyd 1 Ebrill 2022. Nododd Gweinidogion Cymru fod manylion y Tudalennau Gwybodaeth Gorsaf yn tarddu o'r un gwasanaeth ledled y DU, Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol â'r un a ddefnyddir ar gyfer y faner y llif byw. Wrth wneud cais am eithriad i'r Safon, dywedodd Gweinidogion Cymru y dylen nhw hefyd fod wedi gofyn i dudalennau data gwybodaeth y gorsafoedd gael eu trin yn yr un modd. Dywedodd Gweinidogion Cymru bod hwn yn gamgymeriad gall arwain at gasgliad bod y cynnwys yma wedi ei gynhyrchu a'i gyhoeddi yn uniongyrchol gan Drafnidiaeth Cymru. Dywedodd Gweinidogion Cymru nad ydi cam cyntaf prosiect diweddar gwefan Trafnidiaeth Cymru yn darparu'r gallu i gyfieithu cynnwys llif byw gwefan Trafnidiaeth Cymru o ffynonellau data trydydd parti fel Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol.
- 2.7 Gofynnwyd i Weinidogion Cymru beth oedd y canllawiau neu gyfarwyddiadau sydd wedi eu rhoi i rai yng ngofal gwefan Trafnidiaeth Cymru boed yn staff mewnol neu yn drydydd parti ynglŷn â chydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg. Dywedodd Gweinidogion Cymru bod eu strategaeth i weithredu cyfuno gwefannau Trafnidiaeth

Rheilffordd Cymru a Thrafnidiaeth Cymru wedi ei gyflwyno i'r Tîm Uwch Reoli ym mis Tachwedd 2020 a bod strategaeth dau gam wedi ei gytuno. Atgoffwyd y tîm datblygu gwefan ar y dechrau bod gwerthoedd craidd Trafnidiaeth Cymru yn mynnu bod gwefannau cyhoeddus a chyhoeddiadau yn cael eu gweithredu yn Gymraeg a'r Saesneg (yn gyfartal). Dywedodd Gweinidogion Cymru yr adlewyrchir hyn yn eu dogfen Achos Busnes a Chychwyn Prosiect (*Business Case and Project Initiation document*).

- 2.8 Dywedodd Gweinidogion Cymru bod y cam cyntaf, aeth yn fyw ym Medi 2021, yn canolbwyntio ar gynnwys 'Conglfaen', sef y cynnwys sydd yn cael ei ddefnyddio fwyaf aml, y cynnwys fwyaf pwysig a'r cynnwys cysylltiedig â nodweddion allweddol. Dywedodd Gweinidogion Cymru bod yr holl gynnwys Conglfaen wedi ei ail-ysgrifennu, gan sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth Gymraeg a Saesneg. Dywedant hefyd bod unrhyw anghysondeb ble roedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg fel oedd yn digwydd ar wefan Trafnidiaeth Rheilffordd Cymru yn cael ei gywiro. Roedd hyn yn golygu bod 1,200 o dudalennau wedi eu golygu a 100 o dudalennau newydd wedi eu creu.
- 2.9 Dywedodd Gweinidogion Cymru y bydd ail gam y prosiect gwefan cafodd ei gymeradwyo yn Hydref 2021 yn cael ei gwblhau erbyn Ebrill 2022. Bydd y prosiect yma yn ymdrin â chyfieithu gweddill y cynnwys ar gyfer llif dynamig, ble mae angen ail-beiriannu meddalwedd er mwyn hwyluso cyfieithiadau o systemau data cenedlaethol.
- 2.10 Gofynnwyd i Weinidogion Cymru beth yw eu proses arolygaeth i sicrhau bod gwefan Trafnidiaeth Cymru yn cydymffurfio yn llawn gyda gofynion Safonau'r Gymraeg. Dywedodd Gweinidogion Cymru bod proses gymeradwyo 'Go-Live' wedi ei sefydlu cyn cymeradwyo ail-lansiad y wefan ddiwygiedig. Roedd y broses benderfynu 'Go-Live' yma yn cynnwys amryw o aelodau o arweinyddiaeth weithredol Trafnidiaeth Cymru oedd yn adolygu statws y prosiect gwefan. Un o'r meini prawf ar gyfer cymeradwyaeth oedd bod y cyfieithed Gymraeg wedi ei wirio.
- 2.11 Dywedodd Gweinidogion Cymru eu bod, gan weithio gyda Gweithgor Iaith Gymraeg Trafnidiaeth Cymru, wedi sefydlu panel defnyddiwr i adolygu'r cynnwys Cymraeg. Ym mis Gorffennaf 2021, cafodd y wefan ei gwrthod rhag mynd am benderfyniad 'Go-Live' oherwydd camgymeriadau iaith Gymraeg yn y cynnwys Conglfaen.
- 2.12 Dywedodd Gweinidogion Cymru bod cadarnhad wedi ei roi i'r arweinyddiaeth fod y cyfieithiadau Conglfaen Gymraeg ar gyfer diweddariadau Newydd a Blaenoriaethau 1 a 2 wedi eu gwneud a'u cymeradwyo. Ni chafwyd holl dudalennau blaenoriaethau isel yr un sylw a dywedodd Gweinidogion Cymru y bydd y tudalennau yma yn cael eu hadolygu fel rhan o gam 2 gan fod angen iddyn nhw gael eu hail-ysgrifennu yn y 'tôn llais' newydd. Ni chodwyd unrhyw ystyriaeth am dudalennau Gwybodaeth Gorsaf ar y pryd.
- 2.13 Esboniodd Gweinidogion Cymru bod cyfarfod wedi ei gynnal ar 1 o Fedi 2021 i benderfynu os gallent roi'r wefan yn fyw. Rhoddwyd tystiolaeth gan eu Gweithgor Iaith Gymraeg a oedd yn cytuno bod y cynnwys newydd yn cyrraedd y gofynion ac y byddai penderfyniad gwefan 'Go Live' ar gyfer cam 1 yn cael ei gefnogi.
- 2.14 Esboniwyd bod proses Bwrdd Cymeradwyo Newid (*Change Approvals Board*) wedi ei sefydlu ar gyfer newidiadau cyfredol a newidiadau i'r wefan i gam 2 a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys yr ystyriaethau canlynol:

- Gellir cyhoeddi newidiadau "Safonol" a gymeradwywyd ymlaen llaw, ar gyfer diweddariadau a chyhoeddiadau cynnwys o ddydd i ddydd, unwaith y bydd y cynnwys ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
  - Rhaid i newidiadau arferol fynd drwy'r Bwrdd Cymeradwyo Newid i ddangos bod y swyddogaeth wedi'i datblygu i ddarparu galluedd yn y Gymraeg a'r Saesneg.
  - Gellir gwneud newidiadau brys i'r wefan i drwsio ymarferoldeb gyda chymeradwyaeth drwy e-bost gan 3 aelod o'r Bwrdd Cyngori ar Newid.
- 2.15 Gofynnwyd i Weinidogion Cymru pa gamau bydd yn cael eu cymryd neu sydd wedi eu cymryd i sicrhau bod yr holl wybodaeth am gyfleusterau gorsaf ar y wefan yn ddwyieithog ac yn cydymffurfio a Safonau'r Gymraeg. Dywedodd Gweinidogion Cymru bod eu Uwch Arweinwyr ym mis Hydref 2021 wedi cymeradwyo Cam 2 prosiect y wefan gan gynnwys £960,000.00 o gyllid i weithredu atebion meddalwedd cymhleth ar gyfer cyfieithu crynodebau data sy'n dod i mewn gan drydydd parti gan gynnwys Gwybodaeth am Orsafoedd, Gwybodaeth Gwirio Teithiau Byw a Baner Llif Byw.
- 2.16 Dywedodd Gweinidogion Cymru eu bod wedi ysgogi tîm o ddatblygwyr i ddechrau archwilio'r opsiynau technegol a thechnoleg posib yn fanylach ac mai eu huchelgais yw gallu cyfieithu gwybodaeth byw ym mis Mawrth 2022.
- 2.17 Fel cywiriad dros dro i'r diffyg cydymffurfio presennol ar Dudalennau Gwybodaeth yr Orsaf, dywedodd Gweinidogion Cymru eu bod yn archwilio sut y gallent drosi rhywfaint o destun Gwybodaeth yr Orsaf i gynnwys statig fel y gellir ei ddarparu yn Gymraeg cyn mis Mawrth 2022. Gall hyn olygu na fydd diweddariadau i wybodaeth am orsafoedd nad ydynt yn cael eu rheoli gan Drafnidiaeth Rheilffordd Cymru ond sy'n cael eu bwydo'n ôl i'r wefan o ffrydiau Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol, ar gael yn Gymraeg.
- 2.18 Dywedodd Gweinidogion Cymru hefyd wrth gyflwyno gwybodaeth ychwanegol bod pob gweithiwr newydd yn derbyn Ymrwymiad iaith Gymraeg fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu gan amlinellu pwysigrwydd y Gymraeg a'i chymhwysedd i wasanaethau. Dywedodd Gweinidogion Cymru eu bod hefyd wedi cyhoeddi Polisi Iaith Gymraeg yn Medi 2021. Dywedant fod y polisi yn nodi na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y bydd unrhyw wasanaeth neu system ddigidol i'r cyhoedd a ddatblygir gan Drafnidiaeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg. Ymhellach, dywedodd Gweinidogion Cymru eu bod yn cyhoeddi canllawiau i'w staff sy'n cymhwyso'r polisi hwn sy'n cynnwys y cymalau canlynol sy'n ymwneud â gwefan:
- Bydd unrhyw ddeunydd a gyhoeddir yn electronig yn dilyn y canllawiau a nodir ar gyfer deunydd ysgrifenedig yn y polisi hwn, a chaiff ei gyhoeddi'n ddwyieithog, megis gwefannau, apiau a chyfryngau cymdeithasol.
  - Bydd unrhyw wefannau ac apiau a ddatblygir gan Drafnidiaeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg, yn llywio'r defnyddiwr i'r dudalen Gymraeg yn gyntaf lle bo hynny'n bosibl, ac yn caniatáu symud yn rhwydd rhwng tudalennau cyfatebol Gymraeg a Saesneg.

- Er mwyn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gymhwyso i'r prosiect, diffiniwyd pwysigrwydd y Gymraeg yn y ddogfen Achos Busnes a Chychwyn Prosiect ar gyfer y wefan newydd.

# 3 Cydymffurfiaeth â safon 52: Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad

## Geiriad y safon

- 3.1 Dyma'r safon fel y mae'n ymddangos yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i Gweinidogion Cymru:

### Safon 52

Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.

Rhaid cydymffurfio â safon 52 ymhob amgylchiad, ac eithrio:

- gwefannau sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer cynulleidfaedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.
- gwybodaeth catalog a chontract ar y gwasanaeth gwe e- fasnach Procserve.

Rhaid cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2016:

- StatsCymru

Rhaid cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2017:

- Traffig Cymru

Rhaid cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2019:

- Gwefan 'Rheoli Portffolio Cyflenwr'

Rhaid cydymffurfio efo'r safon hon mewn perthynas â baner llif byw tudalen gartref gwefan Trafnidiaeth Cymru Gwasanaeth Rheilffyrdd erbyn 1 Ebrill 2022.

**Diwrnod gosod:** 30.03.2016

## Dehongliadau

- 3.2 Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Atodlen 1, Rhan 3, adran 36 yn nodi:

“36 *At ddiben safonau 52 i 57 (gwefannau ac apiau) a safonau 58 a 59 (cyfryngau cymdeithasol), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—*

*(a)golwg y deunydd (er enghraifft, mewn perthynas â lliw, maint, ffont a fformat unrhyw destun), neu*

*(b)pan gyhoeddir deunydd ar y wefan, yr ap neu'r cyfryngau cymdeithasol;*

*ond nid yw'n golygu bod rhaid i ddeunydd Cymraeg ymddangos ar yr un dudalen â deunydd Saesneg, nac ar dudalen y mae person yn debygol o ddod o hyd iddi cyn y dudalen Saesneg wrth chwilio.”*

- 3.3 Mae Cod Ymarfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn nodi ym mharagraffau 4.10.2 a 4.10.3:

**“Safon 52**

4.10.2. Rhaid i gorff sicrhau bod:

- testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg
- pob tudalen Gymraeg ar ei wefan yn gweithredu'n llawn, ac
- na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau hynny.

4.10.3. Rhaid i gorff sicrhau hynny o ran pob tudalen ar eu gwefan. Mae hyn yn cynnwys y tudalennau a nodir yn safonau 53 a 54, sef y dudalen hafan, unrhyw dudalennau newydd ac unrhyw dudalennau a gaiff eu diwygio ar y wefan.”

**Safonau dibynnol**

- 3.4 Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Atodlen 1, Rhan 2 yn nodi fod safon 55 yn ddibynnol ar safon 52, ond nid yw'n destun i'r ymchwiliad hwn.

**Gofynion y safon**

- 3.5 Rhaid i gorff sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny.

**Ystyried cydymffurfiaeth â'r safon**

- 3.6 Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau yn eu hymateb i'r Hysbysiad Tystiolaeth bod honiad yr achwynydd yn gywir, bod rhan cyfleusterau a gwybodaeth gorsaf gwefan Trafnidiaeth Cymru yn uniaith Saesneg ac nad ydi'r rhan yma o'r wefan yn cydymffurfio a Safonau'r Gymraeg. Mae felly methiant i gydymffurfio â Safon 52.
- 3.7 Mae amrywiad wedi ei gynnwys yn y safon yma sydd yn ymestyn dyddiad gosod y safon ar gyfer rhai gwasanaethau penodol. Mae'r amrywiad yma o ganlyniad i her gan Weinidogion Cymru yn Ionawr 2021 am fwy o amser i gydymffurfio gyda rhai o'r safonau ar sail afresymoldeb ac anghymesurededd yn dilyn symud y gwasanaethau trên oddi wrth gwmni preifat.
- 3.8 Mae Gweinidogion Cymru yn derbyn yn yr Hysbysiad Tystiolaeth nad ydi unrhyw un o'r eithriadau i gydymffurfio a'r Safon yn berthnasol yma. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn eu hymateb yn cadarnhau nad oeddent wedi codi unrhyw broblem gyda chydymffurfio gyda'r Safon yma yng nghyd-destun y tudalennau cyfleusterau gorsaf ar eu gwefan.
- 3.9 Er fy mod yn derbyn tystiolaeth Gweinidogion Cymru bod y wybodaeth yn cyrraedd y wefan gan Ymholiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol, mae llawer o'r wybodaeth yma am

gyfleusterau gorsaf yn wybodaeth gyffredinol sefydlog. Mae'n ymwneud â materion megis trefniadau prynu tocynnau, parcio, hygyrchedd a gwybodaeth cwsmer cyffredinol yn y gwahanol orsafoedd. Mae'n debygol hefyd bod llawer o'r wybodaeth yn debyg o orsaf i orsaf.

- 3.10 Rwyf hefyd yn derbyn y buasai Gweinidogion Cymru wedi dymuno, wrth edrych yn ôl, godi'r mater yma gyda mi wrth wneud eu cais blaenorol i ymestyn dyddiad gosod y safon. Fodd bynnag, mae'r safon berthnasol yng nghyd-destun y tudalennau gwybodaeth cyfleusterau gorsaf yma mewn grym. Mae'r safonau yn creu hawliau pwysig i ddefnyddwyr y Gymraeg ac mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb i sicrhau bod y wybodaeth yma ar gael i ddefnyddwyr yn y Gymraeg.
- 3.11 Mae'r wybodaeth yma yn elfennol ar gyfer teithwyr a defnyddwyr eu gwefan. Gall methiannau fel hyn ar wefannau gael effaith ar hyder siaradwyr Cymraeg mewn gwefannau Cymraeg yn ehangach os ydynt yn teimlo nad ydi'r wybodaeth gywir a chyfredol ar gael bob amser ar fersiwn Gymraeg gwefan. Gall hynny ei wneud yn fwy tebygol bod defnyddwyr Cymraeg yn colli ymddiriedaeth ac yn troi at wefan Saesneg am wybodaeth a bod hyn yn cael effaith ar ddewis iaith unigolyn.
- 3.12 Mae Gweinidogion Cymru wedi esbonio sut y gallent, er mwyn gwirio'r methiant drosi rhywfaint o destun Gwybodaeth yr Orsaf i gynnwys statig fel y gellir ei ddarparu yn Gymraeg cyn mis Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae'r Safon yma mewn grym yn barod yng nghyd-destun y tudalennau yma. Mae gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb felly i sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf yma ar gael yn y Gymraeg i ddefnyddwyr yn hygyrch a bod y Gymraeg ddim yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nid ydwyf o'r farn felly y byddai trosi'r tudalennau i gynnwys statig yn y Gymraeg yn unig yn cydymffurfio gyda'r Safon.

### **Canfyddiadau**

- 3.13 Mae safon 52 yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod testun pob tudalen ar ei wefan ar gael yn Gymraeg, bod pob tudalen Gymraeg ar y wefan yn gweithredu'n llawn, ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y wefan. Nid oes unrhyw un o'r eithriadau i gydymffurfio gyda Safon 52 yn berthnasol yma.
- 3.14 Yn yr achos yma, mae gwybodaeth cyfleusterau gorsaf ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn Saesneg yn unig.
- 3.15 Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 52 gan nad yw'r wybodaeth dan sylw ar gael yn Gymraeg ar y wefan. Nid yw'r wybodaeth dan sylw yn dod o dan un o'r eithriadau i gydymffurfio gyda Safon 52.

### **Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 52**

- 3.16 Dyfarnaf fod Gweinidogion Cymru wedi methu a chydymffurfio gyda Safon 52 ar y sail bod gwybodaeth cyfleusterau gorsaf ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn Saesneg yn unig.

### **Gweithredu pellach**

- 3.17 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.

3.18 Yn achos fy nyfarniad fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 52, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau.

3.19 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

### **Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg**

1. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein yn ymwneud a gwybodaeth a chyfleusterau gorsaf gorsafoedd yng Nghymru ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Rhaid i'r wybodaeth yma gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

**Amserlen:** O fewn 1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol

3. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein yn ymwneud a gwybodaeth a chyfleusterau gorsaf y gorsafoedd tu allan i Gymru fod ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Rhaid i'r wybodaeth yma gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.
4. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 3.

**Amserlen:** O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.



## 4 Cydymffurfiaeth â safon 56: Aseiad, canfyddiadau a dyfarniad

### Geiriad y safon

- 4.1 Dyma'r safon fel y mae'n ymddangos yn yr hysbysiad cydymffurfio a roddwyd i Gweinidogion Cymru:

#### **Safon 56**

Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.

Rhaid cydymffurfio â safon 56 ymhob amgylchiad, ac eithrio:

- gwefannau sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer cynulleidfaoedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.
- gwybodaeth catalog a chontract ar y gwasanaeth gwe e-fasnach Procserve.

Rhaid cydymffurfio â safon 56 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2016:

- StatsCymru

Rhaid cydymffurfio â safon 56 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2017:

- Traffig Cymru

Rhaid cydymffurfio â safon 56 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2019:

- Gwefan 'Rheoli Portffolio Cyflenwr'

**Dyddiad gosod:** 30.03.2016

### Dehongliadau

- 4.2 Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Atodlen 1, Rhan 3, adran 36 yn nodi:

“36 *At ddiben safonau 52 i 57 (gwefannau ac apiau) a safonau 58 a 59 (cyfryngau cymdeithasol), mae cyfeiriadau at beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn cynnwys, ymysg materion eraill (ac yn ychwanegol at faterion penodol y cyfeirir atynt mewn unrhyw safon unigol), beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol o ran—*

*(a)golwg y deunydd (er enghraifft, mewn perthynas â lliw, maint, ffont a fformat unrhyw destun), neu*

*(b)pan gyhoeddir deunydd ar y wefan, yr ap neu'r cyfryngau cymdeithasol;*

*ond nid yw'n golygu bod rhaid i ddeunydd Cymraeg ymddangos ar yr un dudalen â deunydd Saesneg, nac ar dudalen y mae person yn debygol o ddod o hyd iddi cyn y dudalen Saesneg wrth chwilio."*

4.3 Mae Cod Ymarfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn nodi ym mharagraffau 4.10.12 i 4.10.15:

#### **"Safon 56**

- 4.10.12. *Rhaid i gorff sicrhau bod y rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg.*
- 4.10.13. *Nid oes rhaid i gorff sicrhau hynny ar gyfer tudalennau Saesneg os yw corff yn sicrhau hynny ar gyfer ei dudalennau Cymraeg cyfatebol. Fodd bynnag, os yw tudalen yn gweithredu fel y dudalen Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd (e.e. hafan dwyieithog ar wefan), rhaid i gorff sicrhau bod y rhyngwyneb a'r dewislenni yn Gymraeg ar y dudalen honno.*
- 4.10.14. *Bydd natur rhyngwynebau a dewislenni yn newid fesul gwefan ond rhain fydd y rhannau o'r wefan y bydd defnyddiwr yn ei ddefnyddio i gyfathrebu a rhyngweithio â hi.*
- 4.10.15. *Gall dewislenni gynnwys rhestr o ddewisiadau, eitemau, neu orchmynion i ddefnyddiwr ddewis ohonynt (e.e. cwymplen sy'n agor i lawr i ddangos rhestr o ddewisiadau posibl)."*

### **Gofynion y Safon**

4.4 Rhaid i gorff sicrhau eu bod yn darparu rhyngwyneb a dewislenni ar bob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg.

#### **Ystyried cydymffurfiaeth â'r safon**

- 4.5 Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau yn eu hymateb i'r Hysbysiad Tystiolaeth bod honiad yr achwynydd yn gywir, bod rhan cyfleusterau a gwybodaeth gorsaf gwefan Trafnidiaeth Cymru yn uniaith Saesneg ac nad ydi'r rhan yma o'r wefan yn cydymffurfio a Safonau'r Gymraeg. Rwyf o'r farn fod hyn yn cynnwys y dewislenni ar y tudalennau hynny. Mae felly methiant wedi bod i gydymffurfio â Safon 56.
- 4.6 Mae amrywiad wedi ei gynnwys yn y safon yma sydd yn ymestyn dyddiad gosod y safon ar gyfer rhai gwasanaethau penodol. Mae'r amrywiad yma o ganlyniad i her gan Gweinidogion Cymru yn Ionawr 2021 am fwy o amser i gydymffurfio gyda rhai o'r safonau ar sail afresymoldeb ac anghymesuredd yn dilyn symud y gwasanaethau trên oddi wrth gwmni preifat. Nid ydi'r eithriad yn berthnasol i'r gwyn yma.

4.7 Mae'r sylwadau rwyf wedi ei wneud yng nghymalau 3.11 a 3.12 uchod yn berthnasol yn yr un modd o ran Safon 56 hefyd.

### **Canfyddiadau**

4.8 Mae safon 56 yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu rhyngwyneb a dewislenni ar bob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg. Nid oes unrhyw un o'r eithriadau i gydymffurfio gyda Safon 56 yn berthnasol yma.

4.9 Yn yr achos yma, mae'r dewislenni ar y tudalennau cyfleusterau a gwybodaeth gorsaf ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn Saesneg yn unig.

4.10 Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda Safon 56 gan nad yw'r dewislenni dan sylw ar gael yn Gymraeg ar y wefan. Nid yw'r wybodaeth dan sylw yn dod o dan un o'r eithriadau i gydymffurfio gyda Safon 56.

### **Dyfarniad a fu methiant i gydymffurfio â safon 56**

4.11 Dyfarnaf fod Gweinidogion Cymru wedi methu a chydymffurfio gyda Safon 56 ar y sail bod y dewislenni ar y tudalennau gwybodaeth a chyfleusterau gorsaf gwefan Trafnidiaeth Cymru yn Saesneg yn unig.

### **Gweithredu pellach**

4.12 Mae adran 77 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi weithredu ymhellach lle bu methiant.

4.13 Yn achos fy nyfarniad fod Gweinidogion Cymru wedi methu â chydymffurfio â safon 56, byddaf yn gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant i gydymffurfio rhag parhau.

4.14 Mae manylion y gweithredu pellach isod.

#### **Safon 56: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg**

5. Rwy'n ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau eu bod yn darparu dewislenni ar dudalennau gwybodaeth a chyfleusterau gorsafoedd ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn y Gymraeg.

6. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 5.

**Amserlen:** O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

## Hysbysiad penderfynu

---

At: Gweinidogion Cymru

Rhif achos: CS079

Dyddiad: 16/05/2022

### Dyfarniad

---

Yn sgil derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd, cynhaliais ymchwiliad dan adran 71 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 er mwyn dyfarnu a fu methiant gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau'r Gymraeg y mae dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

Mae'r safonau oedd yn berthnasol i'r ymchwiliad fel a ganlyn:

#### **Safon 52**

Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.

Rhaid cydymffurfio â safon 52 ymhob amgylchiad, ac eithrio:

- gwefannau sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer cynulleidfaoedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.
- gwybodaeth catalog a chontract ar y gwasanaeth gwe e- fasnach Procservice.

Rhaid cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2016:

- StatsCymru

Rhaid cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2017:

- Traffig Cymru

Rhaid cydymffurfio â safon 52 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2019:

- Gwefan 'Rheoli Portffolio Cyflenwr'

Rhaid cydymffurfio efo'r safon hon mewn perthynas â baner llif byw tudalen gartref gwefan Trafnidiaeth Cymru Gwasanaeth Rheilffyrdd erbyn 1 Ebrill 2022.

**Diwrnod gosod:** 30.03.2016

## **Safon 56**

Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.

Rhaid cydymffurfio â safon 56 ymhob amgylchiad, ac eithrio:

- gwefannau sydd wedi eu cyhoeddi ar gyfer cynulleidfaoedd a ragwelir sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru.
- gwybodaeth catalog a chontract ar y gwasanaeth gwe e-fasnach Procservice.

Rhaid cydymffurfio â safon 56 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2016:

- [StatsCymru](#)

Rhaid cydymffurfio â safon 56 mewn perthynas â'r canlynol erbyn 30 Medi 2017:

- [Traffig Cymru](#)

Rhaid cydymffurfio â safon 56 mewn perthynas â'r isod erbyn 30 Mawrth 2019:

- [Gwefan 'Rheoli Portffolio Cyflenwr'](#)

**Dyddiad gosod:** 30.03.2016

## **Dyfarnaf fod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 52.**

Sail fy nyfarniad yw bod gwybodaeth cyfleusterau gorsaf ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn Saesneg yn unig.

## **Dyfarnaf fod Gweinidogion Cymru wedi methu cydymffurfio â safon 56.**

Sail fy nyfarniad yw bod y dewislenni ar y tudalennau gwybodaeth a chyfleusterau gorsaf gwefan Trafnidiaeth Cymru yn Saesneg yn unig.

## **Gweithredu pellach**

---

Yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg rwyf wedi penderfynu gweithredu ymhellach at y diben o atal y methiant rhag parhau.

Mae manylion y gweithredu pellach isod.

### **Safon 52: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg**

1. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein yn ymwneud a gwybodaeth a chyfleusterau gorsaf gorsafoedd yng Nghymru ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Rhaid i'r wybodaeth yma gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.
2. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.

**Amserlen:** O fewn 1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol

3. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod tudalennau ei wefannau a'i wasanaethau ar-lein yn ymwneud a gwybodaeth a chyfleusterau gorsaf y gorsafoedd tu allan i Gymru fod ar gael ac yn gweithredu'n llawn yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar y tudalennau a'r gwasanaethau hynny. Rhaid i'r wybodaeth yma gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.
4. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 3.

**Amserlen:** O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Safon 56: Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg**

5. Rwy'n ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau eu bod yn darparu dewislenni ar dudalennau gwybodaeth a chyfleusterau gorsafoedd ar wefan Trafnidiaeth Cymru yn y Gymraeg.
6. Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 5.

**Amserlen:** O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

### **Hawl i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg**

---

Pan fo'r Comisiynydd wedi dyfarnu na fu methiant i gydymffurfio â safon, gall yr achwynnydd apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Pan fo'r Comisiynydd yn wedi dyfarnu bod person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol, gall y person hwnnw apelio i Dribiwnlys y Gymraeg. Yn ogystal, pan fo'r Comisiynydd wedi penderfynu cymryd camau gorfodi mewn cysylltiad â methiant, gall Gweinidogion Cymru apelio i Dribiwnlys y Gymraeg ar y sail fod y camau gorfodi'n afresymol neu'n anghymesur. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses yn y daflen amgaeedig, ac ar wefan y Tribiwnlys.

### **Canlyniadau peidio cydymffurfio â gofyniad mewn hysbysiad penderfynu**

---

Os yw Gweinidogion Cymru yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad penderfynu hwn, caiff y Comisiynydd wneud cais i lys sirol am orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio.